# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 08/06/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Catrin Roberts | Alaw Llewelyn Roberts |
| Cai Rees Jones | Caren Jones | Carys Roberts | Sharon Williams | Lleucu Jones |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Mared Llywelyn Williams, Gito Williams, Gwynfor Jones, Janice Evans, Rhys Llewelyn.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Rhys Tudur – Cais am drwydded eiddo Siop Traeth, Becws Islyn.
   Gruffydd Williams – Cais cynllunio C21/0448/42/DT

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cafwyd cais gan aelod CTN i dynnu ei enw oddi ar gofnod yng nghofnodion mis diwethaf ac mae'r clerc wedi gwneud hynny.
   Cofnodion Pwyllgor Blynyddol Zoom 11/05/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
   Atgoffwyd yr aelodau o'r Rheolau Sefydlog a diolchodd y Cadeirydd newydd i'r clerc am gofnodi mor drylwyr.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cais am fin baw ci ar Lôn Cae Glas, Edern –** Caren Jones
   Mae cais wedi cael ei roi i fewn i Cyngor Gwynedd gan y cynghorydd lleol am gael bin baw ci ar Lôn Cae Glas yn Edern wedi i un o aelodau CTN ofyn amdano. Ers y cyfnod clo mae llawer yn cerdded y lôn yma ac yn ymuno a traeth Bryn Gwydd a llwybr yr arfordir ac oherwydd fod y bin agosaf yn y Groesffordd yn Edern mae pobol yn gadael bagiau baw ci ar ochor y ffordd. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud fod yna gost o rhwng £3.50-£4 i wagio'r biniau yma ac yn gofyn os ydi CTN yn fodlon i ariannu'r gwasanaeth. Mae'r cynghorydd lleol, aelod CTN a Cyngor Gwynedd am gyfarfod ar y safle i benderfynnu ar leoliad y bin.
   Penderfyniad: mae CTN yn fodlon ariannu'r gwasanaeth ond i gael bin sbwriel yn lle bin baw ci gan ei fod yn fwy a bod canaitad i faw ci gael ei roi mewn bin sbwriel cyffredin hefyd.
   Cynnig: Caren Jones     Eilio: Gruffydd Williams

5. **Cytundeb i wahardd defnydd o arfau niwclear –** Gruffydd Williams
   Mae Cyngor Dinas Bangor wedi cefnogi'r alw i waharadd defnydd o arfau niwclar ac mae hwn yn gynnig i CTN ddilyn yr un trywydd.
   Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi'r alw i wahardd defnydd o arfau niwclear ac i Gruffydd Williams â'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr yn datgan hynny.
   Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Cai Rees Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

6. **AHNE Polisi 7 –** Cadeirydd
Cafwyd diweddariad ar y mater. Yn dilyn pwyllgor diwethaf fe wnaeth y clerc anfon ebost at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt fabwysiadu Polisi 7 Parc Cenedlaethol Eryri ac fe ddaeth ymateb ganddynt yn dweud bod gan Cyngor Gwynedd nifer o bolisiau sy'n gwarchod adeiladau traddodiadol a bod y polisiau yma yn sicrhau fod y Gwasanaeth Cynllunio yn ystyried pob cais cynllunio yn drwyadl.
Penderfyniad: pleidlais unfrydol i alw ar Cyngor Gwynedd i fabwysiadu Polisi 7 Parc Cenedlaeth Eryri o fewn yr AHNE.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Arfon Hughes

7. **Cynnig yn cefnogi ieithoedd lleiafrifol Ffrainc** – Gruffydd Williams
Mae hen hanes o gysylltiad rhwng Nefyn a Llydaw ac mae mynd a dod mawr rhwng y ddwy wlad wedi bod yn digwydd dros y blynyddoedd. Pasiwyd cais i warchod yr ieithoedd lleiafrifol yn y Senedd yn Ffrainc a oedd yn rhoi yr hawl iddynt addysgu eu plant drwy'r ieithoedd lleiafrifol, 'roedd hyn yn rhywbeth yr oeddent wedi bod yn brwyrdo drosto ers blynyddoedd ac felly yn garreg filltir fawr. Yn ddiweddar fe alwodd yr aelod cabinet oedd yn gyfrifol am addysg, y rheol yma i fewn a'i wyrdroi ac felly mae galwad wedi dod yn gofyn am gefnogaeth i roi y Ddeddf Molac yn ôl yn ei le.
Penderfyniad: pleidlais unfrydol i gefnogi ieithoedd lleiafrifol Ffrainc ac i Gruffydd Williams â'r Cadeirydd ysgrifennu datganiad i'r clerc ei yrru i'r cyfryngau.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams

8. **Problem Sbwriel a Malurio a cwynion sydd wedi eu derbyn** – Sharon Williams
Mae'r Cadeirydd yn diolch i Sharon Williams am fynd ar ôl hyn. Mae prosiect ar y gweill yn Cae Chwarae Y Ddôl lle mae 'hopscotch' a 'snakes and ladders' ar thema morwrol yn cael eu paentio ar slabiau concrid ac mae dis tro wedi cael ei brynnu i'w roi wrth eu hymyl. Mae'r dis tro yma wedi costio cannoedd ac fe fydd rhaid talu am ei osod ac o gysidro'r holl falurio sy'n mynd ymlaen yn y cae chwarae y pryder yw y caiff hwnnw ei falurio hefyd. Mae'r arwyddion ffordd a archebwyd nôl ym mis Chwefror sydd yn y cae chwarae wedi cael eu malurio yn barod ac felly nid yw'n fater achlysurol ddim mwy ond yn diwgydd yn rheolaidd. Cafwyd cynnig i gysylltu hefo'r ysgolion â'r siopau lleol ac ysgolion yn yr ardaloedd ehangach i dynnu eu sylw at y broblem a cafwyd cynnig arall i ofyn i'r heddlu gadw llygaid ar y mater a tynnu eu sylw hwythau i'r broblem.
Mae fidio wedi cael ei thynnu o blant yn cicio a plygu yr arwyddion felly mae gan CTN dystiolaeth o pwy sydd yn gwneud hyn.
Penderfyniad: Lleucu Jones i llythyru'r ysgolion â'r siopau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r broblem a CTN i fynd at rieni'r plant sydd yn y fidio i'w dangos iddynt gyda'r gobaith y bydd yn rhoi diwedd ar y broblem ond os na fydd fe fydd rhaid mynd a'r mater ymhellach.
Mae arwydd 'Diolch' Nefyn wedi cael ei falu a phan gafodd arwydd 'Diolch' Morfa ei falu fe archebwyd un arall yn ei le.
Penderfyniad: y clerc i archebu arwydd 'Diolch' arall i Nefyn.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Carys Roberts
Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan berson sydd yn bwriadu symud i fyw i Nefyn ac eisiau gwybod os oes yna grŵp gwirfoddol hel sbwriel o gwmpas. Mae Tafarn yr Heliwr wedi hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol eu bod wedi cofrestru fel un o hybiau codi sbwriel 'Cadwch Cymru'n Daclus'.
Penderfyniad: cyfeirio'r person yma at Dafarn yr Heliwr.

Cynnig: Cai Rees Jones Eilio: Arfon Hughes

**9. Ffurflen Flynyddol 2020-2021**

Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol, Adroddiad Archwiliad Mewnol, y cysoniad banc â'r cyfrifon iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Fe aeth y Clerc drwy'r risciau a godwyd gan yr Archwilwyr yn eu adroddiad, mae 3 risc wedi ei liniaru yn barod ond bydd rhaid rhoi amser yn ystod y flwyddyn yma i greu cofrestr asedau iawn oherwydd mae hwn yn risc sydd yn cael ei godi yn flynyddol a dim byd yn cael ei wneud amdano. Golyga hyn ddipyn o waith ac fe fydd rhaid cynnal Is-Bwyllgor Ariannol gyda cynrychiolwyr o bob pentref i greu y rhestr allan o dempled sydd wedi cael ei dderbyn gan yr Archwilwyr Mewnol.

Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2020-2021.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Sharon Williams

**10. Polisi Iaith –** Cadeirydd

Yng nghyfarfod mis Mai penderfynwyd i adolygu y Polisi Iaith mis yma ond ei fod yn dal yn weithredol tan hynny er mwyn cydlynnu ein Polisi ni hefo Cynghorau Cymuned a Thref eraill fel bod pawb yn gyson. Mae'r cadeirydd wedi bod yn siarad hefo aelod o Cyngor Cymuned Tudweiliog oherwydd eu bod nhw wedi bod yn delio hefo polisi Iaith drwy'r Cynghorau Cymuned ac mae'n debyg mai Polisi Iaith Cyfeillion Llŷn ydi'r un sydd ganddom ni. Mae gan Cyngor Cymuned Tudweiliog un mwy diweddar ond nid yw hwnnw yn gryfach na'r Polisi sydd ganddom ni. Mae'r cadeirydd yn awyddus i gael barn Simon Brookes ar y Polisi gan ei fod wedi bod yn gwneud Polisi Iaith ei hun ym Mhorthmadog, ond heb ei dderbyn eto.

Penderfyniad: Gwahodd y Cynghorau Cymuned a Thref, sydd yn defnyddio y Gymraeg fel unig iaith weinyddol, i gyfarfod, i greu memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y cynghorau hynny a'r clerc i yrru llythyr o wahoddiad iddynt.

Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts

**11. Tirlithriad –** Diweddariad gan y Cadeirydd

Derbyniwyd ebost gan aelod o Cyngor Tref Nefyn yn datgan pryder fod pobol yn eistedd reit o dan y clogwyn ar y traeth yn Nefyn lle y digwyddodd y tirlithriad. Derbyniwyd hefyd ymateb i ebost y clerc i Cyngor Gwynedd yn datgan mae dim y nhw sydd yn gyfrifol a'u bod wedi rhoi arwyddion i fyny yn rhybuddio pawb o'r perygl. Mae aelod arall o Cyngor Tref Nefyn wedi derbyn ymateb gan y Goron yn amlinellu lle yn union sydd yn eu perchnogaeth nhw ar y traeth ac yn dweud nad y nhw sydd yn gyfrifol ychwaith. Y pryder mwyaf yw fod hyn yn mynd i ddigwydd eto yn y rhan o'r traeth lle mae'r morglawdd a'r cytiau glan y môr yn ystod yr haf pan mae cannoedd o bobol ar y traeth.

Penderfyniad: Gyrru llythyr i dir feddiannwyr y traeth lle mae'r cytiau glan y môr yn amlinellu'r peryglon yn dilyn y tirlithriad a gofyn iddynt godi ymwybyddiaeth y bobol sydd berchen y cytiau.

Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Carys Roberts

**12. Llwybrau –** Diweddariad gan y Cadeirydd

Cafwyd diweddariad ar y llwybrau. Gan fod y tymor nythu newydd orffen a neb yn cael torri'r llwybrau maent wedi gor-dyfu ac mae cwynion wedi eu derbyn yn eu cylch felly mae'r aelod lleol wedi cysylltu hefo Cliff i dorri'r llwybrau yma. Mae o hefyd wedi bod ar ôl Swyddog Cyngor Gwynedd sy'n delio hefo llwybr yr arfordir a llwybr lleiniau gan fod yr ysgol yn cychwyn yn ôl ac mae'r llwybr yma yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol. Mae o hefyd wedi cysylltu hefo Cyngor

Gwynedd ynglŷn â'r llwybr o Cefn Edern dros Gors Geirch fisoedd yn ôl ond heb gael ymateb gan fod y swyddog yn wael ac fe addawodd fynd ar ei ôl eto.

13. **Cae Glandwr –** Catrin Roberts
Mae gwybodaeth wedi ei dderbyn mai Cyngor Tref Nefyn sydd berchen y tir ac mae darpar brynnwr ar ei ôl felly fe fydd y mater yn cael ei roi gerbron eto yn y dyfodol.

14. **Rhandiroedd y Ddôl –** Diweddariad
Yn dilyn pwyllgor mis Mai cafodd yr aelodau eu hatgoffa o beth yn union a basiwyd ym mhwyllgor mis Tachwedd ynglŷn â'r Rhandiroedd drwy ddarllen y cofnod allan sydd yn datgan fod Cyngor Tref Nefyn wedi pasio fod Tafarn yr Heliwr yn cael defnyddio rhan o'r Rhandiroedd.
Mae'r clerc wedi anfon ebost i'r adran stadau yn gofyn iddynt os ydynt wedi cysylltu hefo'r adran gyfreithiol ynglŷn â newid y ddwy amod ar y gytundeb ac hefyd i ofyn os oes angen cytundeb unigol ar gyfer pob plot ers y 12fed o Fai ond heb gael ymateb. Mynegodd y clerc ei bod yn cael trafferth cael unrhyw adran o Cyngor Gwynedd i atab ffôn neu ebyst a bod hyn yn dal ei gwaith a gwaith y Cyngor Tref yn ôl.
Cafwyd cadarnhad gan Swyddog o Cyngor Gwynedd bod ein cais am yr arian wedi ei gymeradwyo ac mae'r clerc wedi cael caniatad o dan y Ddeddf Draenio Tir a gan fod y tymor nythu wedi dod i ben fe geith y gwaith gychwyn.
Penderfyniad: y clerc i fynd ar ôl yr adran stadau eto ynglŷn â'r adran gyfreithiol a lincio Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor i fewn yn yr ebost i dynnu sylw at y broblem diffyg ymateb.
Os bydd Tafarn yr Heliwr yn gofyn am ddiweddariad yna fe fydd rhaid pwyntio allan mai Cyngor Gwynedd sy'n dal y mater yn ôl oherwydd diffyg ymateb ac mae Cyngor Tref Nefyn angen y wybodaeth o'r adran gyfreithiol cyn medru symud ymlaen.
Cynnig: Catrin Roberts  Eilio: Rhys Tudur

15. **Mynwent Morfa Nefyn –** Diweddariad
**Estyniad i'r Fynwent**
Nid oes diweddariad ar y mater gan fod y clerc unwaith eto yn dal i aros am ymateb gan Cyngor Gwynedd ers 11eg o Mai ynglŷn a pwy sydd yn delio hefo 'compulsory purchase'. Mae'r clerc wedi anfon dau ebost arall ers y dyddiad yna yn gofyn am ddiweddariad ond eto heb gael ymateb.
Cafwyd awgrym gan un o'r aelodau i gysylltu gyda'r Adran Eiddo i geisio cael gwybodaeth felly mae'r clerc am gysylltu gyda nhw.

16. **Siop Traeth, Becws Islyn –** cais am drwydded eiddo
Penderfyniad: pasiwyd i ganiatau'r drwydded.
Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Arfon Hughes

17. **Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng Flaen 5ed Gorffennaf 2021** – e-bost Un Llais Cymru dyddiedig 4/1/2021 – Catrin Roberts
Cafodd y mater yma i'w drafod nôl yn mis Ionawr ac oherwydd amryw o amgylchiadau ac er ei fod i lawr ar agenda mis Chwefror, Mawrth a Mai nid oes cyfle wedi bod i'w drafod tan rwan. Mae aelod o Cyngor Tref Nefyn yn awyddus i drefnu gweithgaredd o dan ambarel Cyngor Tref Nefyn ac felly yn gofyn os ydynt yn fodlon i hyn ddigwydd. Y bwriad yw cyd-weithio gyda Cyfeillion y Santes Fair a

cynnal te bach gyda band pres Pwllheli yn chwarae, cynnal y dau funud i gofio a cael y dair eglwys i ganu eu clychau am 8 o'r gloch y nos.
Penderfyniad: dim gwrthwynebiad i'r aelod drefnu'r gweithgaredd.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Caren Jones

**18. Tendar Mynwent Nefyn**
Daeth y dyddiad i gyflwyno tendar i ben ddiwedd mis Mai a derbyniwyd 2 amcanbris a darllennodd y clerc y 2 amcanbris allan. Gofynwyd os oedd briff wedi mynd allan hefo'r tendar yn amlinellu beth oeddynt yn ei brisio a'r ateb oedd na, dim ond y cynllun a gymerwywyd gan yr Adran Gynllunio yn rhan o'r cais cynllunio a'r contractwyr i drefnu cyfarfod gyda aelod o CTN yn y fynwent i gael mwy o wybodaeth.
Penderfyniad: Gan nad oedd briff wedi mynd allan am y gwaith hefo'r tendar mae Arfon Hughes, Rhys Tudur a Gruffydd Williams am gyfarfod yn y fynwent i greu briff ar gyfer y gwaith a'r clerc wedyn am ei anfon at y ddau gontractwr sydd wedi cyflwyno dyfynbris er mwyn iddynt gadarnhau fod y gwaith yn adlewyrchu'r briff.
Cynnig: Rhys Tudur    Eilio: Arfon Hughes

**19. E-on Next – adnewyddu cytundeb trydan Siop Siarad**
Mae cytundeb trydan Siop Siarad yn dod i ben mis nesaf ac mae'r clerc wedi cysylltu gyda'r cwmni E.On Next i gael y prisiau maent yn gynnig i adnewyddu'r gytundeb. Y prisiau mae CTN yn dalu rwan ydi: Standing charge 24c y dydd a 26.8c yr uned ac maent yn cynnig cytundeb ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ar: standing charge 30c y dydd a 24.3c yr uned.
Penderfyniad: derbyn y prisiau newydd a cychwyn cytundeb newydd am ddwy flynedd.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Catrin Roberts

**20. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
Dim.

**21. Ceisiadau Cynllunio**
**C21/0448/42/DT –** Tai'r Lôn, Edern – Dymchwel gweithdy, modurdy a lolfa haul bresennol a chodi adeilad newydd i gynnwys lolfa haul, ystafell fwyta ac ystafell wely llawr cyntaf gyda ystafell ymolchi – ail-gyflwyniad yn dilyn gwrthodiad C20/0845/42/DT
Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad o'r safle ac effaith weledol ar yr AHNE.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**22. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc sy'n cynnwys y gor-amser a basiwyd mis diwethaf - £1077.06
- Clerc - Ad-daliad Zoom Pro - £143.88
- Tyddyn Sachau - £167.64
- Tyddyn Sachau - £199.35
- Mark Hughes – llafur plannu blodau Nefyn - £120.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

- Mark Hughes – Meinciau Morfa ac Edern - £65.00
- Mark Hughes – Meinciau Nefyn - £240.00
- Mark Hughes – Cwch y Ddôl - £30.00
- Dŵr Cymru – Treth Dŵr Llyfrgell Nefyn - £524.12
- Rent Siop Siarad - £780.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Ellen Gwyneth Evans - £400.00
- D M Parry – Ail daliad mynwent Nefyn & Morfa - £1020.00
- David Ogilvie Engineering – Meinciau y Gôf Golofn - £2823.60
- Cliff Hughes – Ail daliad Llwybrau - £1075.00 & gwaith ychwanegol - £269.24 = £1344.24
- Ashley Hughes – £29.98
- Dwr Cymru – Treth dŵr mynwent Nefyn - £47.12
- E.on Next – Trydan Siop Siarad mis Mai - £103.87
- N Power – Trydan Llyfrgell mis Mai - £266.94

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Catrin Roberts

Gofynwyd am ganiatad gan yr aelodau i dalu Sian sydd yn gwneud y gwaith 'Hopscotch' a 'Snakes and ladders', gan ei bod bron a gorffen y gwaith a ddim yn gorfod aros tan pwyllgor mis nesaf i gael ei thalu.

Penderfyniad: mae'r pwyllgor yn caniatau hyn ac mae'r arian yn dod allan o gyfrif Bryn Mynach.

Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Arfon Hughes

**23. Taliadau wedi eu derbyn:**

Dim.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737